# Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1934A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân, y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ei hun.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac i unrhyw drydydd parti, mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os bydd cais yn dod i law am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae'r Cod Adran 45 yn nodi'r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.archwilio@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i atal twyll, mae ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Prif ganfyddiadau a meysydd i'w gwella 5

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau 6

Atodiadau

Atodiad 1 – Adnoddau atal twyll 13

Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr 14

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Ar 11 Mehefin 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Trefniadau Atal Twyll yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru: Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.
Roedd yr adroddiad yn adolygiad disgrifiadol, lefel uchel o'r trefniadau sydd ar waith yn Llywodraeth Cymru, y GIG a llywodraeth leol (awdurdodau unedol yn unig), ac amlygodd rai negeseuon pwysig:

- mae colledion a achosir gan dwyll yn y sector cyhoeddus yn sylweddol. Mewn cyfnod o gyni, mae pob punt a gollir oherwydd twyll yn bunt y gellid ei gwario ar wasanaethau cyhoeddus;
- mae twyll o bob math yn esblygu'n gyson, felly mae angen i fesurau atal twyll fod yr un mor glyfar â'r twyllwyr; ac
- mae adnoddau a neilltuir i weithgarwch atal twyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cymeradwyodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynnig yr Archwilydd Cyffredinol i wneud gwaith pellach ar gyrff amrywiol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau atal twyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Gwnaed y gwaith hwn rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020.

3 Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol o'r enw 'Gwella ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru' sy'n crynhoi canfyddiad allweddol ein hadolygiad ledled Cymru. Nid yw'n disgrifio'r trefniadau sydd ar waith mewn cyrff unigol yn fanwl, ond mae'n nodi amrywiaeth o gyfleoedd i wella trefniadau atal twyll ledled Cymru.

4 Er i'r adroddiad cenedlaethol nodi mai trefniadau atal twyll y GIG yw'r rhai mwyaf datblygedig ar draws y sector cyhoeddus, nododd fod yna agenda heriol o hyd i wneud atal twyll yn addas ar gyfer y degawd nesaf lle mae globaleiddio a dyfodiad technoleg ddigidol wedi creu risgiau newydd, a chyfleoedd i'r twyllwyr.

5 Mae'r adroddiad yn galw ar gyrff y GIG i argyhoeddi eu hunain:

- bod adnoddau atal twyll yn cael eu pennu ar sail asesiad o ffactorau risg lleol;
- bod asesiadau risg atal twyll yn cael eu hintegreiddio â threfniadau rheoli risg corfforaethol;
- bod strategaethau ar waith i wneud mwy o ddefnydd o ddadansoddeg data i atal a chanfod twyll; a
- bod strategaethau ar waith i wella cydweithredu o fewn y sector ac yn ehangach ar draws ffiniau sectorau.

6 Mae'r adroddiad cryno hwn yn cyflwyno ein hasesiad o drefniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) ar gyfer atal a chanfod twyll.
Mae ein hasesiad yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, gan gynnwys papurau bwrdd a phapurau pwyllgor, a chyfweliadau gyda nifer fach o staff.

# Prif ganfyddiadau a meysydd i'w gwella

7 Canfu ein hasesiad fod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i atal twyll, bod ganddo drefniadau addas i gefnogi gwaith atal a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol pan fydd twyll yn digwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol o'r gwaith yn fanylach yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn.

8 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, nodwyd rhai meysydd i'w gwella (**Arddangosyn 1**). Dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad cenedlaethol. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r meysydd i'w gwella ar gael yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: meysydd i'w gwella**

| Meysydd i'w gwella |
| --- |
| **Hyfforddiant atal twyll**<br>I1 Cyflwyno hyfforddiant atal twyll gorfodol ar gyfer rhai grwpiau staff neu bob grŵp staff. |
| **Cofnodi a monitro risg twyll economaidd**<br>I2 Sicrhau cysondeb wrth gofnodi a monitro risg twyll economaidd yn unol â pholisi a strategaeth rheoli risg y Bwrdd Iechyd. |

Ffynhonnell yr arddangosyn: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Ein canfyddiadau

9 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r meysydd ffocws yn ein gwaith a'n canfyddiadau.

**Arddangosyn 2: meysydd gwaith a'n canfyddiadau**

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Ystyriwyd a yw'r haen uchaf yn dangos ymrwymiad i atal twyll ac yn darparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol i ymladd twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• y Bwrdd/Tîm Gweithredol yn hyrwyddo ymrwymiad clir i ddim goddefgarwch o dwyll, a hyrwyddo gwaith atal twyll;<br>• uwch arweinwyr yn mynd ati i hyrwyddo a rhaeadru diwylliant gwrth-dwyll;<br>• dealltwriaeth ar draws y sefydliad o gyfrifoldebau dros atal twyll ac adrodd am dwyll tybiedig; ac<br>• ymrwymiad sefydliadol i hyfforddiant ymwybyddiaeth gwrth-dwyll a moeseg, gyda hyfforddiant gwrth-dwyll gorfodol priodol wedi'i dargedu ar gyfer yr holl staff. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yw swyddog gweithredol y Bwrdd sy'n gyfrifol am atal twyll.<br>• mae atal twyll yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.<br>• caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud â thwyll eu trin fel blaenoriaeth gan y sefydliad, ac mae ymrwymiad clir gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.<br>• mae polisïau a strategaethau yn cyfleu neges gyson na fydd twyll yn cael ei oddef, ac y bydd pob cam yn cael ei gymryd i gyflwyno sancsiynau troseddol neu ddisgyblu yn erbyn cyflawnwyr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng y rhai sy'n gyfrifol am waith gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd a grwpiau a rheolwyr staff allweddol eraill yn y sefydliad.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i dwyll profedig a'r camau a gymerwyd.<br>Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:<br>• adeg ein hadolygiad, nid oedd hyfforddiant gwrth-dwyll yn orfodol i'r holl staff ac nid oedd wedi'i gynnwys mewn hyfforddiant sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu deunydd darllen gwrth-dwyll ar gyfer dechreuwyr newydd, mae'n darparu sesiynau ymwybyddiaeth gwrth-dwyll nad ydynt yn orfodol ac mae'n ystyried gwneud hyfforddiant gwrth-dwyll yn orfodol ar gyfer grwpiau penodol o staff. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad strwythur addas ac adnoddau medrus digonol i atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol dynodedig (LCFS) sydd â chyfrifoldeb dynodedig am atal twyll a'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau gwrth-dwyll;<br>• lefel briodol o staff gwrth-dwyll profiadol, hyfforddedig ac achrededig i gynnal ymchwiliadau a gwaith gwrth-dwyll;<br>• eglurder o ran rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd gwrth-dwyll;<br>• buddsoddi mewn gwaith gwrth-dwyll ar sail penderfyniadau gwybodus sy'n deillio o asesiad risg twyll sy'n tynnu sylw at risgiau ac yn pennu'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â hwy; a<br>• rhaglen flynyddol o waith gwrth-dwyll rhagweithiol (gwaith atal twyll) sy'n ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg gydag amser wedi'i glustnodi wedi'i neilltuo i waith rhagweithiol. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd LCFS penodedig, sydd â'r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau gwrth-dwyll a ddynodir gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol.<br>• yr LCFS hefyd yw'r arweinydd dynodedig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi staff gwrth-dwyll achrededig a hyfforddedig, sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi a datblygiad proffesiynol yn ôl y gofyn.<br>• mae lefel yr adnoddau gwrth-dwyll yn y Bwrdd Iechyd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac yn agosach at y lefel uwch o adnoddau ar gyfer y chwe bwrdd iechyd mawr **(Atodiad 1**). Yr adnoddau gwrth-dwyll cyfwerth ag amser cyflawn (WTE) fesul 1,000 o staff yw 0.22 WTE o'i gymharu â'r cyfartaledd o 0.19 WTE ar gyfer GIG Cymru.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynegi rolau a chyfrifoldebau gwrth-dwyll yn glir. Ceir protocol sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r timau gwrth-dwyll, cyllid a gweithlu mewn perthynas â chyflwyno sancsiynau twyll.<br>• mae gan yr LCFS a'r staff gwrth-dwyll fynediad i'r holl systemau, cofnodion ac adeiladau gofynnol i wneud eu gwaith.<br>• mae'r LCFS yn cwblhau Offeryn Hunan-adolygu (SRT) Gwrth-dwyll y GIG ar gyfer Awdurdodau'n flynyddol. Lle nodir materion (risgiau), cânt eu hymgorffori yn y cynllun gwaith gwrth-dwyll, ynghyd ag unrhyw faterion/risgiau a nodwyd drwy waith atal twyll cyffredinol. Mae'r SRT yn nodi blaenoriaethau gwaith rhagweithiol ar gyfer y flwyddyn.<br>• nododd ein hadolygiad fod cryn ffocws wedi'i roi yn ystod 2018-19 ar waith adweithiol oherwydd nifer fawr o atgyfeiriadau achos, ac roedd rhai ohonynt yn gymhleth. Arweiniodd hyn at leihad yn y gwaith rhagweithiol a wnaed o gymharu â'r lefel arfaethedig o waith rhagweithiol. Cynyddodd y Bwrdd Iechyd adnoddau gwrth-dwyll yn 2019-20 i gynyddu lefel y gwaith rhagweithiol a wnaed. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| | Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:<br>• er bod y lefelau staffio ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, dim ond 2.6 WTE yw'r lefelau staffio. Pe bai lefel y gwaith ymchwilio'n cynyddu, neu pe bai unrhyw aelod o staff yn absennol, gallai hyn effeithio ar y gallu i gyflawni'r lefel gytunedig o waith gwrth-dwyll rhagweithiol.<br>• yn ystod 2018-19, rhoddwyd hyfforddiant gwrth-dwyll i 159 o aelodau staff; mae hyn yn cynrychioli llai na 2% o weithlu'r Bwrdd Iechyd. |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad fframwaith polisi cadarn i gefnogi trefniadau atal twyll effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• strategaeth/polisi atal twyll sy'n egluro sut mae'r sefydliad yn rheoli risgiau twyll ac sy'n diffinio cyfrifoldebau atal twyll penodol;<br>• Cod Ymddygiad sy'n egluro beth sy'n ymddygiad derbyniol a sut i roi gwybod am wrthdaro buddiannau a rheoli hynny;<br>• trefniadau chwythu'r chwiban cadarn sy'n egluro mecanweithiau ar gyfer rhoi gwybod am dwyll;<br>• cofrestri a gynhelir o roddion a lletygarwch; a<br>• sgrinio cyn cyflogi. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd cyfredol (y polisi), sy'n cael ei adolygu, ei werthuso a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'r polisi'n cynnwys cynllun ymateb gwrth-dwyll.<br>• craffwyd ar y polisi a'i gymeradwyo gan LCFS, uwch reolwyr a Phwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd.<br>• codir ymwybyddiaeth staff o'r polisi mewn sesiynau ymwybyddiaeth gwrth-dwyll.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd God Ymddygiad priodol, a pholisïau chwythu'r chwiban a seiberddiogelwch gyda phrosesau adolygu ac adnewyddu ar waith.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i gynnal ac adolygu cofrestri buddiannau, rhoddion a lletygarwch.<br>• mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal ar unrhyw staff newydd cyn iddynt ddechrau gweithio yn y sefydliad.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd i'w gwella. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad asesiad risg twyll effeithiol ynghyd ag ymatebion priodol i faterion sy'n dod i'r amlwg.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• asesiadau risg twyll rheolaidd a chynhwysfawr yn cael eu trafod a'u cytuno gydag uwch arweinwyr a'r Pwyllgor Archwilio;<br>• asesiadau risg twyll fel rhan o fframwaith rheoli risg cyffredinol y sefydliad; a<br>• risg twyll wedi'i gynnwys yng nghynllun y system er mwyn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer twyll. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cwblhau SRT Gwrth-dwyll y GIG ar gyfer Awdurdodau'n flynyddol.<br>• mae cynlluniau gwaith blynyddol yn seiliedig ar wybodaeth a dderbynnir ac a nodir, adolygiad o achosion sy'n parhau, atgyfeiriadau a blaenoriaethau gwaith rhagweithiol a nodir ledled Cymru. Mae lefelau adnoddau gwrth-dwyll yn gymesur â'r lefel risg a nodwyd. Mae mesurau i liniaru risgiau a nodwyd wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith, a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio.<br>• mae polisïau a gweithdrefnau papur yn cael eu prawfesur o safbwynt twyll gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddwyd gan Awdurdod Atal Twyll y GIG. Mae'r LCFS yn adolygu polisïau ac yn cynnig newidiadau lle bernir bod hynny'n angenrheidiol.<br>Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:<br>• nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cofnodi ac yn monitro risg twyll economaidd ar hyn o bryd yn unol â'i bolisi a'i fframwaith rheoli risg cyffredinol. Dylid integreiddio asesiadau risg o fewn y fframwaith rheoli risg ehangach, er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol ehangach a rheoli risgiau mewn ffordd weithredol.<br>. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a yw amgylchedd rheolaeth fewnol y sefydliad yn cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• rheolaethau mewnol wedi'u llunio a'u profi i fynd i'r afael â risgiau twyll a nodwyd a helpu i atal twyll rhag digwydd;<br>• adolygiadau archwilio mewnol o risgiau twyll a phrofi rheolaethau a luniwyd i atal a chanfod twyll;<br>• y sefydliad yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os gwelir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal â'r bwriad a bod gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau twyll; ac<br>• mae'r sefydliad yn defnyddio paru data i ddilysu data a chanfod gweithgarwch a allai fod yn dwyllodrus. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae tîm Archwilio Mewnol y Bwrdd Iechyd yn adolygu risgiau twyll a phrofi rheolaethau a luniwyd i atal a chanfod twyll fel rhan o'i raglen waith flynyddol. Mae gwybodaeth yn cael eu rhannu â gwasanaethau gwrth-dwyll lleol yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth y cytunwyd arno.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os gwelir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal â'r bwriad ac yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau twyll.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn ymarfer paru data'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol, gwiriadau dilysu ôl-dalu gofal sylfaenol a gwiriadau lleol eraill (fel y gyflogres).<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio meddalwedd rheoli achosion i gofnodi unrhyw wendidau yn y system a nodwyd o ganlyniad i ymchwiliadau a/neu ymarferion atal a chanfod rhagweithiol. Agwedd bwysig ar y feddalwedd hon yw cofnodi'r gwersi a ddysgwyd.<br>Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:<br>• dim ond ychydig o enghreifftiau o ddadansoddeg data yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o atal twyll a nodwyd gan ein hadolygiad cenedlaethol, yn bennaf ymarfer paru data'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad ymateb priodol i dwyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cynllun cynhwysfawr ar gyfer ymateb i dwyll sy'n nodi trefniadau clir ar gyfer adrodd ac ymchwilio i honiadau o dwyll;<br>• camau i sicrhau bod pob honiad o dwyll yn cael ei asesu;<br>• gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer cynnal ymchwiliadau twyll sy'n dilyn arferion proffesiynol priodol ac sy'n cyd-fynd â'r cynllun ymateb i dwyll;<br>• ystyried y casgliad llawn o sancsiynau sydd ar gael, a cheisio unioni (er enghraifft adennill arian ac asedau) lle'n briodol;<br>• system rheoli achosion briodol i gofnodi a monitro cynnydd gydag achosion posibl o dwyll; a<br>• chydweithio â phartneriaid allanol i fynd i'r afael â thwyll. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae Cynllun Ymateb i Dwyll y Bwrdd Iechyd yn dilyn arferion gorau fel y cynghorir gan Awdurdod Atal Twyll y GIG.<br>• staff cymwysedig yn ymchwilio i bob achos o dwyll tybiedig, ac yn unol â'r Cynllun Ymateb i Dwyll. Adroddir ar ganlyniadau ymchwiliadau i'r Pwyllgor Archwilio ac i Awdurdod Atal Twyll y GIG.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r casgliad llawn o sancsiynau sydd ar gael (camau disgyblu staff, camau sifil a chamau troseddol) ac yn ceisio adennill arian lle y bo'n briodol ac yn gost-effeithiol gwneud hynny.<br>• cofnodir pob ymchwiliad ar feddalwedd rheoli achosion. Mae'r hyn a ddysgir o dwyll yn cael ei rannu â staff priodol er mwyn gweithredu a chyflwyno newidiadau i systemau a gweithdrefnau lle y bo'n briodol.<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu'n rhagweithiol ac yn rheolaidd â sefydliadau ac asiantaethau eraill fel Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg y GIG, yr heddlu, Gwasanaethau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, awdurdodau lleol, a chyrff rheoleiddio a phroffesiynol i helpu i fynd i'r afael â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Gellir prynu gwasanaethau arbenigol gan Awdurdod Atal Twyll y GIG lle bo angen.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd i'w gwella. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Ystyriwyd a oes gan y sefydliad brosesau adrodd a chraffu priodol ar waith i sicrhau bod ei ddiwylliant a'i fframwaith gwrth-dwyll yn gweithredu'n effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cofnod yn cael ei gadw o golledion ac adenillion yn sgil twyll;<br>• y Pwyllgor Archwilio yn mynd ati'n rhagweithiol i atal twyll a hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll effeithiol; a'r<br>• Pwyllgor Archwilio'n herio ac yn adolygu gwaith gwrth-dwyll, a sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas ag atal twyll. | Gwelsom yr arferion da canlynol:<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw cofnod o golledion ac adenillion yn sgil twyll;<br>• mae atal twyll yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio;<br>• cyflwynir y cynllun blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ynghyd ag adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gyflawni'r rhaglen waith flynyddol, ynghyd â risgiau twyll a chamau gweithredu a nodwyd i'w lleihau; a<br>• cynhyrchir diweddariadau achos ar gyfer sesiwn breifat y Pwyllgor Archwilio yn amlinellu achos, statws ac adenillion mewn arian/asedau.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd i'w gwella. |

# Atodiad 1

## Adnoddau atal twyll

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi nifer yr adnoddau Arbenigwyr Atal Twyll Lleol (LCFS) fesul 1,000 o staff.

**Arddangosyn 3: Nifer yr adnoddau LCFS fesul 1,000 o staff (mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf)**

| | LCFS WTE | Cyfanswm staff yn y sefydliad | LCFS WTE fesul 1,000 o staff (cyfrif pennau) |
|---|---|---|---|
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru[1] | 0.2 | 280 | 0.71 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 2.0 | 3,535 | 0.57 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys[2] | 1.2 | 2,286 | 0.52 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg[2] | 2.6 | 11,944 | 0.22 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 2.0 | 10,032 | 0.20 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 2.6 | 13,659 | 0.19 |
| **GIG Cymru (cyfartaledd)** | **18.2** | **94,614** | **0.19** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe[2] | 2.2 | 12,962 | 0.17 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 2.9 | 18,491 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru[1] | 0.3 | 1,903 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre[1] | 0.4 | 4,411 | 0.16 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro[1] | 1.8 | 15,111 | 0.12 |

[1] Mae Tîm LCFS Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau i Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

[2] Mae Tîm LCFS Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu gwasanaethau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

Ffynhonnell: Awdurdod Atal Twyll GIG Cymru, Adroddiad Perfformiad Gweithredol 2019-20 (Chwarter 3), a Chyfrif Pennau Stats Cymru ar 30 Medi 2019 (a gafwyd o system Cofnodion Staff Electronig y GIG).

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r meysydd i'w gwella.

**Arddangosyn 4: Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd**

| Meysydd i'w gwella | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno hyfforddiant gwrth-dwyll gorfodol ar gyfer rhai grwpiau staff neu bob grŵp staff. | Bydd Atal Twyll yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant sefydlu'r Bwrdd Iechyd mewn modd mwy amlwg nag ydyw ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae amrywiaeth o opsiynau, o gyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb i e-ddysgu gwrth-dwyll gorfodol, i'w defnyddio gyda grwpiau o staff sydd mewn mwy o berygl o dwyll y gellir eu hystyried i ategu'r rhaglen sefydledig o waith ymwybyddiaeth a wneir gan Dîm Atal Twyll y Bwrdd Iechyd. | 31/03/2021 | Matthew Evans |

| Meysydd i'w gwella | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau cysondeb wrth gofnodi a monitro risg twyll economaidd yn unol â pholisi a strategaeth rheoli risg y Bwrdd Iechyd. | Bydd risg twyll yn cael ei rheoli'n unol â fframwaith rheoli risg y Bwrdd Iechyd; gan ddefnyddio polisïau, gweithdrefnau a systemau sefydledig. Bydd hyn yn galluogi'r perchnogion risg i reoli risg yn effeithiol gyda chymorth arbenigol gan y Tîm Atal Twyll. | 30/09/2020 | Matthew Evans |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Facs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.